COVID-19 Update: March 30th

The Cardiff Council COVID-19 update for today covers, the latest on the help being provided for businesses, an updated Q&A on the new waste collection arrangements, and blue badge payment restrictions.

Almost £20 million of grants delivered to local businesses in Cardiff

£20m has been distributed to Cardiff businesses in grant aid by Cardiff Council in the past four days as part of a COVID-19 rescue package.

Some 1,300 companies applied for the aid which is being administered by the council in Cardiff on behalf of Welsh Government.

It follows Welsh Government's announcement last week of a £1.4bn support package for businesses in Wales to help them survive during the outbreak.

Since the weekend, further support has also been announced by Welsh Government for companies that have been affected. As of today (Monday, March 30), with an extra £500m being released to help companies that haven't benefitted from the schemes announced so far.

Further information will be released on the new grant scheme as soon as it is available, but Cardiff Council is urging any business that qualifies for the grants announced last week to get in touch with the council as quickly as possible.

The businesses that are eligible for these grants are:

- All businesses which are currently eligible for Small Business Rates Relief, which is those with a rateable value up to £12,000, will receive a grant of £10,000. If you believe you are an eligible business click here for the application form and follow the processes outlined.
- Retail, leisure and hospitality businesses with a rateable value between £12,001 and £50,000 will receive a grant of £25,000. If you believe you are an eligible business click here for the application form and follow the processes outlined.

The financial support offered by these grants is in addition to the non-domestic rates relief scheme announced for 2020-21.

It ensures all retail, leisure and hospitality businesses with a rateable value of £500,000 or less will not have to pay their business rates for one year.

Businesses do not need to apply for the non-domestic rate relief scheme, as this will be administered automatically by the Council through the Council's Rate Scheme.

Under further measures announced today, a £100m Development Bank of Wales fund will be made available for companies that are experiencing cash flow problems. The new bank will provide loans - based on a favourable interest rate - of between £5,000 and £250,000 to companies that need urgent financial help.

A £400m ‘emergency pot’ has also been announced, which allows businesses that have been effected by the COVID-19 crisis to access emergency funds based on the number of people that they employ.

The new grants announced by the Welsh Government today, are:

- A grant of £10,000 is available for businesses that employ up to 9 people
- Grants up to £100,000 are available for companies that employ between 10 and 249 people.

This new scheme will also provide support for Welsh companies of critical social or economic importance.

Change to weekly waste collections

As announced in full here, https://www.cardiffnewsroom.co.uk/releases/c25/23490.html , from today, Monday 30th March, Cardiff moved to a new, weekly, kerbside-collection, meaning that all household waste (except garden waste) is picked up at the same time.

Collection days for your area remain the same, but the way waste is handled has changed to help manage the impact of COVID-19 and ensure the wellbeing of both residents and the workforce.

All residents who have a black, wheelie bin must put their food waste and hygiene waste (nappies, incontinence waste etc.) into the black bin for collection. Do not use your food caddy. Collections will be on the normal day for your area.

Residents that live in areas which don't have black wheelie bins must put hygiene waste (nappies, incontinence waste etc.) in their red-striped bags for general waste. Food waste in bag areas should continue to go into your food caddy to stop animals and birds scattering food waste across streets.

Recycling collections will continue as normal and recycling bags should be put out weekly at the same time, alongside other waste.
Garden waste or electrical items must not be put into any bins or bags during the emergency.

The Q&A published on www.cardiffnewsroom.co.uk on Friday, has been further updated.

You can click here to read the Q&A:
https://www.cardiffnewsroom.co.uk/releases/c25/23516.html

Parking Permit and Blue Badge Postal Application and Payment Restrictions

Any payments or applications for residential parking permits or Blue Badges made through the post may not be actioned due to the current restrictions in place for non-essential travel.

This will mean that any cheques or postal orders sent through the post will not be cashed until the restrictions are lifted. Customers should ensure that they have sufficient funds in their bank accounts to allow their payment to clear and also ensure that they will not be overdrawn as a result.

Where possible please make any application for residential parking permits or Blue Badges using the Council's online facilities, as these are being monitored and processed.

Also, any postal applications may not be processed until restrictions are lifted. If your permit or Blue Badge expired in March, then please continue to use your permit or badge and submit your application online as soon as possible.

New application: https://www.cardiff.gov.uk/ENG/resident/Parking-roads-and-travel/Parking-permits/Apply-for-a-new-permit/Pages/default.aspx

Renew application: https://www.cardiff.gov.uk/ENG/resident/Parking-roads-and-travel/Parking-permits/Renew-an-existing-permit/Pages/default.aspx

Blue badge: https://www.cardiff.gov.uk/ENG/resident/Parking-roads-and-travel/Blue-badge-parking/How-to-apply/Pages/default.aspx

Diweddariad COVID-19: 30 Mawrth

Mae diweddariad COVID-19 Cyngor Caerdydd ar gyfer heddiw yn cynnwys y diweddaraf o ran y cymorth sy'n cael ei ddarparu i fusnesau, adran holi ac ateb wedi'i diweddaru ar y trefniadau newydd ar gyfer casglu gwastraff, a chyfyngiadau taliadau bathodynnau glas.

Bron i £20 miliwn o grantiau wedi eu dosbarthu i fusnesau lleol yng Nghaerdydd

Mae £20 miliwn wedi'i ddosbarthu i fusnesau Caerdydd mewn cymorth grant gan Gyngor Caerdydd yn y pedwar diwrnod diwethaf fel rhan o becyn achub COVID-19. Ymgeisiodd 1,300 o gwmnïau am y cymorth sy'n cael ei weinyddu gan y Cyngor yng Nghaerdydd ar ran Llywodraeth Cymru.

Mae'n dilyn cyhoeddiad Llywodraeth Cymru yr wythnos diwethaf am becyn cymorth gwerth £1.4 biliwn ar gyfer busnesau yng Nghymru i'w helpu i oroesi yn ystod yr achos.

Ers y penwythnos, mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi cyhoeddi cymorth pellach i gwmnïau yr effeithiwyd arnyn nhw. O heddiw ymlaen (dydd Llun, 30 Mawrth), gyda £500 miliwn ychwanegol yn cael ei ryddhau i helpu cwmnïau nad ydynt wedi manteisio ar y cynlluniau a gyhoeddwyd hyd yn hyn.

Caiff rhagor o wybodaeth ei rhyddhau am y cynllun grant newydd cyn gynted ag y bydd ar gael, ond mae Cyngor Caerdydd yn annog unrhyw fusnes sy'n gymwys i gael y grantiau a gyhoeddwyd yr wythnos diwethaf i gysylltu â'r Cyngor cyn gynted â phosibl.

Dyma'r busnesau sy'n gymwys am y grantiau hyn:

- Bydd pob busnes, sydd ar hyn o bryd yn gymwys ar gyfer Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bychan, hynny yw y rheiny sydd â gwerth ardrethol hyd at £12,000, yn derbyn grant o £10,000. Os ydych yn credu eich bod chi'n fusnes cymwys cliciwch yma i gael y ffurflen gais a dilynwch y prosesau a amlinellir.
- Bydd busnesau manwerthu, hamdden a lletygarwch sydd â gwerth ardrethol rhwng £12,001 a £50,000 yn derbyn grant o £25,000. Os ydych yn credu eich bod chi'n fusnes cymwys cliciwch yma i gael y ffurflen gais a dilynwch y prosesau a amlinellir.

Mae'r cymorth ariannol a gynigir gan y grantiau hyn yn ychwanegol at y cynllun rhyddhad ardrethi annomestig a gyhoeddwyd ar gyfer 2020-21.
Mae'n sicrhau na fydd yn rhaid i'r holl fusnesau manwerthu, hamdden a lletygarwch sydd â gwerth ardrethol o £500,000 neu lai dalu eu hardrethi busnes am un flwyddyn.
Nid oes angen i fusnesau wneud cais am y cynllun rhyddhad ardrethi annomestig, gan y bydd hyn yn cael ei weinyddu'n awtomatig gan y Cyngor drwy Gynllun Ardrethi'r Cyngor.

Dan fesurau pellach a gyhoeddwyd heddiw, bydd Cronfa Banc Datblygu Cymru gwerth £100 miliwn ar gael i gwmnïau sy'n cael problemau llif arian. Bydd y banc newydd yn cynnig benthyciadau - yn seiliedig ar gyfradd llog ffafriol - rhwng £5,000 a £250,000 i gwmnïau sydd angen cymorth ariannol brys.

Cyhoeddwyd 'pot argyfwng' o £400 miliwn hefyd, sy'n caniatáu i fusnesau yr effeithiwyd arnyn nhw gan argyfwng COVID-19 gael gafael ar gronfeydd argyfwng yn seiliedig ar nifer y bobl y maent yn eu cyflogi.

Dyma'r grantiau newydd a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru heddiw:

- Mae grant gwerth £10,000 ar gael i fusnesau sy'n cyflogi hyd at 9 o bobl
- Mae grantiau hyd at £100,000 ar gael i gwmnïau sy'n cyflogi rhwng 10 a 249 o bobl.

Bydd y cynllun newydd hwn hefyd yn rhoi cymorth i gwmnïau o Gymru sydd o bwysigrwydd cymdeithasol neu economaidd allweddol.

Newid i gasgliadau gwastraff wythnosol

Fel y cyhoeddwyd yn llawn yma, https://www.newyddioncaerdydd.co.uk/releases/c25/23490.html , o heddiw ymlaen, dydd Llun 30 Mawrth, symudodd Caerdydd i gasgliad newydd, wythnosol, wrth ymyl y ffordd, sy'n golygu y caiff pob gwastraff cartref (ac eithrio gwastraff gardd) ei gasglu ar yr un pryd.

Bydd y diwrnodau casglu ar gyfer eich ardal yn aros yr un fath, ond mae'r ffordd y caiff gwastraff ei drin yn newid i helpu i reoli effaith COVID-19 a sicrhau lles y trigolion a'r gweithlu.

Mae'n rhaid i'r holl drigolion sydd â biniau olwynion du roi eu gwastraff bwyd a'u gwastraff hylendid (cewynnau/gwastraff meddygol ac ati) yn y bin du i'w casglu. Peidiwch â defnyddio eich cadi bwyd. Bydd y casgliadau yn digwydd ar y diwrnod arferol ar gyfer eich ardal.

Mae'n rhaid i drigolion sy'n byw mewn ardaloedd, nad oes biniau olwynion du ynddynt, roi'r gwastraff hylendid (cewynnau/gwastraff meddygol ac ati) yn eu bagiau streipiau coch ar gyfer gwastraff cyffredinol. Dylai'r gwastraff bwyd mewn ardaloedd â bagiau barhau i gael ei roi yn eich cadi bwyd i atal anifeiliaid ac adar rhag gwasgaru gwastraff ar hyd y strydoedd.

Bydd casgliadau ailgylchu yn parhau yn ôl yr arfer a dylid rhoi bagiau ailgylchu allan yn wythnosol ar yr un pryd â'r gwastraff arall.

Mae'r adran holi ac ateb a gyhoeddwyd ar https://www.newyddioncaerdydd.co.uk/ ddydd Gwener, wedi cael ei diweddaru ymhellach.

Cliciwch yma i ddarllen yr adran holi ac ateb:
https://www.cardiffnewsroom.co.uk/releases/c25/23516.html

Cyfyngiadau Ceisiadau Post a Thalu ar gyfer Trwyddedau Parcio a Bathodynnau Glas

Mae'n bosibl na fydd rhai taliadau neu geisiadau am drwyddedau parcio preswyl neu Fathodynnau Glas a wneir drwy'r post yn cael eu gweithredu i rai pobl oherwydd y cyfyngiadau presennol sydd ar waith ar gyfer teithio nad yw'n hanfodol. Bydd hyn yn golygu na fydd unrhyw sieciau neu Archebion Post a anfonir drwy'r post yn cael eu clirio nes i'r cyfyngiadau gael eu codi. Dylai cwsmeriaid sicrhau bod ganddynt ddigon o arian yn eu cyfrifon er mwyn sicrhau bod eu taliadau'n gallu clirio a hefyd sicrhau na fyddant mewn dyled o ganlyniad.

Os oes modd, gwnewch unrhyw gais am drwyddedau parcio preswyl neu Fathodynnau Glas gan ddefnyddio cyfleusterau ar-lein y Cyngor, mae'r rhain yn cael eu monitro a'u prosesu.

Ni ellir prosesu unrhyw geisiadau drwy'r post nes i'r cyfyngiadau cael eu codi. Os daeth eich trwydded neu'ch Bathodyn Glas i ben ym mis Mawrth, yna parhewch i ddefnyddio'ch trwydded neu'ch bathodyn a chyflwyno'ch cais ar-lein cyn gynted â phosibl.

Cais newydd: https://www.cardiff.gov.uk/CYM/preswylydd/Parcio-Ffyrdd-a-Theithio/Trwyddedau-parcio/Gwneud-cais-am-drwydded/Pages/default.aspx

Adnewyddu cais: https://www.cardiff.gov.uk/CYM/preswylydd/Parcio-Ffyrdd-a-Theithio/Trwyddedau-parcio/Adnewyddu-eich-trwydded/Pages/default.aspx

Bathodynnau glas: https://www.cardiff.gov.uk/CYM/preswylydd/Parcio-Ffyrdd-a-Theithio/Trefniadau-parcior-Bathodyn-Glas/Sut-i-wneud-cais/Pages/default.aspx